PECYN YR ECOLEGYDD

# PECYN CYMORTH INSIWLEIDDIO WALIAU ALLANOL (IWA) A GWAITH CYSYLLTIEDIG

## Pecyn B: Ecolegwyr | Rhan 3.2: IWA RWE (Ystlumod) Templed Trwydded

## Cyfres Gwella Cartrefi

Caru • Love Ceredigion

GREEN MAN ECOLOGY

Ni dderbynnir cyfrifoldeb am unrhyw golled, difrod neu ganlyniadau anfoddhaol sy'n codi yn sgil gweithredu unrhyw weithgareddau a geir o fewn y Pecyn Cymorth hwn. Nid yw'r defnydd o enwau perchnogol a masnachol o fewn y Pecyn Cymorth hwn yn golygu o angenrheidrwydd bod y cynnyrch yn cael ei gymeradwyo gan yr awduron.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn ar unrhyw ffurf, na thrwy unrhyw ddull, gan gynnwys llungopïo, recordio neu ddulliau trydanol a mecanyddol eraill, heb gael caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan **Gyngor Sir Ceredigion**.

*Fersiwn 1.2 Medi 2016*

**Arweinwyr y Prosiect:** Graeme Lane a Leanne Bird

**Golygwyd gan:** Leanne Bird, Cyngor Sir Ceredigion

**Ysgrifennwyd gan:** Catharine Wüste, Green Man Ecology Ltd.

**Cyfraniadau gan:** Graeme Lane, Cyngor Sir Ceredigion, yr Ecolegydd llawrydd Tom McOwat, Willmott Dixon Energy Services Ltd, Barbara Owsianka, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac Ian Thomas (gwirfoddolwr)

**Dyluniwyd gan**: InSynch

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ceredigion

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Ymgyngoreion**: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod

**Cyngor Sir Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, SA46 0PG**

# Y PECYNNAU CYMORTH

## Pecyn A: Pecyn y Cleient

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer cleientiaid

## Pecyn B: Pecyn yr Ecolegydd

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Ecolegwyr

Rhan 3 – Cais am Drwydded Rhanddirymiad Rhagofalus

- *ffurflen gais*
- *templed MS*

## Pecyn C: Pecyn y Contractwr

Rhan 1 – Cyflwyniad cyffredinol

Rhan 2 – Canllawiau ar gyfer Contractwyr

Rhan 3 – Datganiad y dull lliniaru

Rhan 4 – Sgwrs y bocs tŵls

## Pecyn D: Pecyn Lliniaru

Rhan 1 – Ffurflen archwilio lliniaru eiddo

Rhan 2 – Enghraifft o ffurflen archwilio lliniaru wedi ei llanw

Rhan 3 – Catalog o ddulliau lliniaru a gwelliannau

Rhan 4 – Cais am wybodaeth gyhoeddus am ystlumod ac adar

Rhan 5 – Gwybodaeth am flychau ar gyfer rhywogaethau a bywyd gwyllt a warchodir ar gyfer perchnogion eiddo

# Y BROSES GYFAN

## CAM 1: Pennu'r risg i ystlumod ac adar sy'n magu

- Arolwg bwrdd gwaith gan gynnwys chwiliad y Ganolfan Cofnodion Lleol
- Arolwg ar droed gan ecolegydd cymwys i chwilio am arwyddion o ystlumod, a allai fod ystlumod yn bresennol, gan gynnwys mynedfeydd posib ac arwyddion o adar sy'n magu

Os nad oes DIM arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / a does dim tebygolrwydd bod ystlumod yn breswennol, gallwch fynd ymlaen â'r gwaith, gan ymgorffori'r gwelliannau ar gyfer yr eiddo dan sylw.

Os oes arwyddion o adar neu ystlumod yn magu / mae'n bosibl bod ystlumod yn bresennol – ewch i gam 2.

## CAM 2: Cynllunio mesurau lliniaru

- Gwarchod rhag effeithio ar yr ystlumod drwy sicrhau bod yr holl fynedfeydd sydd ganddynt yn cael eu cadw, a thrwy beidio ag effeithio ar linell y to/y bondo
- Gwneud y gwaith y tu allan i dymor magu'r adar
- Darparu nythod newydd sy'n addas ar gyfer y rhywogaethau perthnasol

GELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / does dim angen ymestyn llinell y to / does dim angen bondo newydd

- Dylech lunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â'r datganiad dull ar gyfer yr eiddo dan sylw

NI ELLIR cadw'r mynedfeydd sydd gan yr ystlumod ar yr eiddo / mae angen ymestyn llinell y to / mae angen bondo newydd – ewch i gam 3.

## CAM 3: Arolwg presenoldeb / absenoldeb

- Os nad yw'n bosibl gwarchod rhag yr effeithiau posib, bydd angen cynnal arolygon presenoldeb/absenoldeb o'r ystlumod yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig.

Os NAD OES dim tystiolaeth o ystlumod

- Bydd angen llunio datganiad dull sy'n cynnwys mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer ystlumod ac adar, a gwneud cais am drwydded ystlumod ragofalus
- Dylech fynd ymlaen â'r gwaith yn unol â datganiad dull yr eiddo dan sylw.

OS OES tystiolaeth o ystlumod. Dylech wneud cais am drwydded ystlumod penodol (rhanddirymiad) ar gyfer yr eiddo dan sylw, a gwneud y gwaith yn unol â'r datganiad dull (gan ymgorffori mesurau lliniaru a gwelliannau ar gyfer adar) NEU peidiwch â gwneud y gwaith.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

# CAIS AM DRWYDDED I LADD YN FWRIADOL, ANAFU, CIPIO (CYMRYD), TARFU'N FWRIADOL, DIFRODI/DIFETHA SAFLE BRIDIO/TRIGFAN, NEU I GLUDO RHYWOGAETH A WARCHODIR GAN EWROP O DAN:

# RHEOLIADAU GWARCHOD CYNEFINOEDD A RHYWOGAETHAU 2010

## NODIADAU CANLLAW

Darllenwch y nodiadau canlynol yn ofalus.

i. Ffurflen gais yw hon am drwydded i ladd yn fwriadol, anafu, cipio (cymryd), tarfu'n fwriadol, difrodi/difetha safle bridio/trigfan, neu i gludo Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, at y dibenion canlynol:

- **I warchod iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd** neu **am resymau holl bwysig eraill sydd er budd cyhoeddus tra phwysig**, gan gynnwys rhesymau cymdeithasol neu economaidd ac ar gyfer canlyniadau buddiol o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd;
- **I atal clefyd rhag lledaenu;**
- **I atal niwed difrifol** i anifeiliaid fferm, bwydydd anifeiliaid, cnydau, llysiau, ffrwythau, coedamaeth, neu unrhyw ffurf arall ar eiddo, neu i bysgodfeydd; i ganiatáu i bobl gyflawni gweithgaredd a fyddai, fel arall, yn anghyfreithlon.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd iddo o dan reoliadau 53(1) a 56(3)(a) o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, yn gallu cyflwyno trwydded ar gyfer y dibenion uchod, gan ganiatáu i weithgaredd ddigwydd a fyddai, fel arall, yn anghyfreithlon, **ar yr amod**:

- nad oes **dewis boddhaol arall**;
- na fydd y weithred a awdurdodwyd **yn niweidio'r drefn o gynnal poblogaeth y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol** yn ei amgylchedd naturiol.

ii. Rhaid cwblhau pob cwestiwn yn fanwl ar y ffurflen gais hon, oni nodir yn wahanol: os byddwch yn methu â darparu gwybodaeth ddigonol, bydd oedi wrth brosesu eich cais. Dylai unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei darparu gael ei hatodi ar ddalenni ychwanegol. Anelwn at brosesu ceisiadau ymhen 30 diwrnod gwaith i dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Ni allwn warantu y daw ateb yn gynharach.

iii. Un o amodau rhoi unrhyw drwydded yw bod adroddiad am y gwaith a wnaed o dan y drwydded yn cael ei gyflwyno o fewn pedair wythnos i ddyddiad dod i ben y drwydded. Gellir dod o hyd i ffurflen adrodd am drwydded ar ein gwefan. Os na fyddwch yn ei gyflwyno, mae'n bosibl y bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod yn y dyfodol. Mae angen gwybodaeth o'r adroddiadau hyn er mwyn rhoi gwybodaeth gryno i Gyfoeth Naturiol Cymru ac eraill am y nifer o drwyddedau a gyflwynwyd, dibenion y trwyddedau, a pha rywogaethau sy'n cael eu cynnwys. Nid yw'r ystadegau cryno hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y rhai a oedd yn dal trwydded. Gellir defnyddio'r wybodaeth at ddibenion cadwraeth hefyd a'i rhannu â sefydliadau eraill.

iv. Sylwer, os yw eich gweithgaredd angen neu wedi derbyn caniatâd cynllunio, neu gydsyniad adeilad cofrestredig, neu hysbysiad dymchwel, neu orchymyn cadw coed, bydd angen i chi gynnwys y canlynol:

- Dogfen Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i chwblhau a'i llofnodi cyn i'ch cais gael ei gyflwyno
- Copi o'r caniatadau sy'n gysylltiedig â'r cais
- Copi o adroddiad y penderfyniad dirprwyedig a/neu gofnodion y pwyllgor cynllunio
- Dogfennaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadarnhau y cyflawnwyd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau ac sydd angen eu cyflawni cyn dechrau'r datblygiad.

v. Nodwch na fyddwn yn prosesu eich cais tan inni dderbyn yr holl ddogfennau y gofynnwyd amdanynt. Os ydych yn anfon dogfennau atom ar ffurf copi caled, gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu dau gopi papur a bod y print yn ddarllenadwy. Rhaid i bob copi fod yn union yr un fath â'r ddogfen wreiddiol, ac o ran lliw hefyd

hynny'n berthnasol.

vi. Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth a anfonir atom yn cael ei rhannu'n briodol ac y rhoddir teitlau, ac os yw'n cael ei bostio, bod pob darn wedi'i rwymo wrth ei gilydd; os na fyddwch yn gwneud hyn, bydd oedi wrth brosesu eich cais.

vii. Caiff ceisiadau eu hymdrin yn gronolegol. Golyga hyn eu bod yn cael eu prosesu yn unol â pha bryd y cawsant eu cyflwyno, nid yn ôl amseriad y gwaith. Byddwch cystal â chyflwyno eich cais mewn da bryd cyn y gwaith arfaethedig. Os ydych yn meddwl bod angen i'ch cais gael ei drin ar frys, ffoniwch ni i drafod hyn ac i gytuno arno cyn cyflwyno'r cais.

viii. Wrth ateb eich cwestiynau, yn benodol **7-11**, byddai'n fuddiol i chi ystyried pam, beth, sut, ble a phryd. Er enghraifft: Pam ydych chi'n ei wneud? Beth fyddwch chi'n ei wneud? Sut bydd yn effeithio ar y rhywogaethau dan sylw? etc.

ix. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru newid neu ddirymu unrhyw drwydded a gyflwynir; fodd bynnag, ni fydd hyn yn digwydd oni bai bod rheswm dilys am wneud hyn. Bydd unrhyw drwydded a gyflwynir yn cael ei dirymu ar unwaith os gwelir bod gwybodaeth ffug wedi'i darparu a arweiniodd at gyflwyno trwydded.

x. Bydd yr holl wybodaeth a gedwir gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'ch cais am drwydded yn cael ei phrosesu a'i rheoli gennym yn unol â'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau o dan:

- Ddeddf Diogelu Data 1998;
- Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
- Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
- Pob deddf arall sy'n ymwneud â mynediad at wybodaeth.

O gofio hyn, gall eich gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth ymateb i geisiadau o'r fath, mae'n bosibl y bydd angen i ni ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys eich gwybodaeth bersonol. Bydd ein hymateb i geisiadau o'r fath yn cyd-fynd â'r canllawiau a ddarperir gan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar gyfer Mynediad at Wybodaeth, y gellir dod o hyd iddo yn www.information.wales.gov.uk

**Am ragor o wybodaeth am y data personol a gesglir, a'i ddefnydd, neu os bydd gennych unrhyw bryderon am gywirdeb data personol, neu er mwyn defnyddio unrhyw un o'ch hawliau o dan y ddeddfwriaeth uchod, dylech gysylltu â:**

- Swyddogion Mynediad at Wybodaeth, Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd, Caerdydd, CF24 0TP, neu e-bostiwch atiteam@naturalresourceswales.gov.uk neu ffoniwch 0300 065 3000
- Gellir cysylltu â llinell gymorth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 029 2067 8400 neu yn www.ico.org.uk

xi. Dylai ymgeiswyr nodi nad yw trwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi mynediad i unrhyw dir neu'r pŵer i fyned ar unrhyw dir.

xii. Dylai unrhyw wybodaeth a gynhwysir yn y cais hwn a ystyrir gan yr ymgeisydd yn gyfrinachol am resymau masnachol neu ddiwydiannol, neu'n eiddo deallusol iddo, gael ei nodi felly'n eglur.

Yn y ddogfen hon, mae "Cyfoeth Naturiol Cymru" yn cyfeirio at Gorff Adnoddau Naturiol Cymru, a sefydlwyd gan Erthygl 3 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012. Roedd Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013 yn trosglwyddo swyddogaethau perthnasol Cyngor Cefn Gwlad Cymru a swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru i Gorff Adnoddau Naturiol Cymru.

## Gwybodaeth ar gyfer llenwi ffurflen gais

1. Os yw'r ddogfen yn cael ei llenwi mewn llawysgrifen, yna defnyddiwch **LYTHRENNAU BRAS.**

2. Atebwch **BOB** cwestiwn yn fanwl.Bydd atebion anghyflawn yn arwain at oedi wrth brosesu eich cais.

3. Sylwer, os bydd eich gweithgaredd wedi derbyn hawl cynllunio (ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn prosesu ceisiadau lle mae hawl cynllunio yn dal i gael ei ystyried), hysbysiad dymchwel, cydsyniad adeilad rhestredig, neu orchymyn cadw coed, bydd angen i chi gynnwys y canlynol yn eich cais:

   - **Dogfen Awdurdod Cynllunio Lleol**
   - **Copi o'r caniatadau sy'n gysylltiedig â'r cais**
   - **Copi o adroddiad y penderfyniad dirprwyedig a/neu gofnodion y pwyllgor cynllunio**
   - **Dogfennaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadarnhau y cyflawnwyd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau ac sy'n gorfod cael eu cyflawni cyn dechrau'r datblygiad.**

   Defnyddiwch y daflen ticiadau a ddarperir ar ddiwedd y cais i'ch hatgoffa i amgáu'r holl ddogfennau gofynnol er mwyn i ni fedru prosesu eich cais.

4. Gwnewch yn siŵr bod arolygon a gyflwynir gyda'ch cais yn llai na dwy flwydd oed.

5. Gellir derbyn ceisiadau **naill ai** yn electronig **neu** drwy'r post (yn electronig yw ein hoff ddewis).

   **Ceisiadau electronig**
   Ceisiadau electronig i: specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk. PEIDIWCH ag anfon y cais drwy'r post hefyd, os gwelwch yn dda.

   **Ceisiadau drwy'r post**
   Darparwch ddau gopi o bob dogfen os gwelwch yn dda; rhaid i un copi o'r ffurflen gais gael ei lofnodi'n wreiddiol gan ddeilydd y drwydded a'r ecolegydd (rhaid mai llofnodion gwlyb ydynt). Postiwch at: **Tîm Gwarchod Rhywogaethau, Tîm Trwyddedu Cenedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2DW**

6. Anfonir cydnabyddiaeth atoch ar ôl derbyn eich cais – cysylltwch â ni os na fyddwch wedi derbyn ymateb o fewn 5 diwrnod gwaith.

7. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn anelu at brosesu ceisiadau o fewn **30 diwrnod gwaith.** Bydd y cloc prosesu yn dechrau pan fyddwn yn derbyn cais cyflawn gennych gyda'r holl wybodaeth gysylltiedig y gofynnwn amdani yn y ffurflen gais hon. Defnyddiwch y rhestr wirio ar ddiwedd y ffurflen am gyfarwyddyd. Os bydd gennym unrhyw ymholiad i ofyn i chi tra ein bod ni'n prosesu eich cais, bydd y cloc yn stopio pan fyddwn yn gofyn yr ymholiad ac yn ail-ddechrau pan fydd yr ymholiad wedi'i fodloni.

## Rhan A. Yr Ymgeisydd (Datblygwr/Perchennog tir): Manylion personol

**Mae'r adran hon yn ymwneud â'r person a fydd yn drwyddedai a enwir. Rhaid i hwn fod yn unigolyn a enwir; ni cheir rhoi enwau cwmnïau neu sawl unigolyn. Fel deiliad y drwydded, byddwch yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded a'i hamodau.**

### 1. Manylion cyswllt yr Ymgeisydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Teitl (Mr, Mrs, Miss ac yn y blaen) | Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| | | | |
| | Teitl yn y busnes (lle bo'n berthnasol) | | |
| | Enw'r Cwmni (lle bo'n berthnasol) | | |
| | Cyfeiriad | | |
| | | | |
| | Tref | | |
| | Sir | | |
| | Cod post | | |
| | Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol) | | |
| | Rhif ffôn symudol (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol) | | |
| | Cyfeiriad e-bost (Darparwch ef os yw'n bosibl, fel bod modd inni e-bostio copi o'r drwydded atoch, os bydd yn cael ei chymeradwyo.) | | |

## Rhan B. Yr Ecolegydd: Manylion personol a phrofiad gyda'r rhywogaethau dan sylw

**Mae'r adran hon yn ymwneud â'r person fydd yn gweithredu ar ran y datblygwr/perchennog tir ac a fydd yn gyfrifol am gyflenwi elfennau penodol o unrhyw drwydded a roddir parthed tarfu ar Rywogaethau a Warchodir gan Ewrop, gan gynnwys goruchwylio gwaith eithrio a mesurau lliniaru.**

### 2. Manylion cyswllt yr Ecolegydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Teitl (Mr, Mrs, Miss ac yn y blaen) | Enw(au) cyntaf | Cyfenw |
| | | | |
| | Teitl yn y busnes (lle bo'n berthnasol) | | |
| | Enw'r Cwmni (lle bo'n berthnasol) | | |
| | Cyfeiriad | | |
| | | | |
| | Tref | | |
| | Sir | | |
| | Cod post | | |
| | Rhif ffôn (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol) | | |
| | Rhif ffôn symudol (gan gynnwys y cod deialu cenedlaethol) | | |
| | Cyfeiriad e-bost (Darparwch ef os yw'n bosibl, fel bod modd inni e-bostio copi o'r drwydded atoch, os bydd yn cael ei chymeradwyo.) | | |

## 3. Ceisiadau Blaenorol

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | A ydych chi, fel Ecolegydd y gwaith hwn, wedi meddu ar drwydded ddatblygu Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop a gyflwynwyd gan unrhyw un o'r canlynol? (nodwch **X** lle bo'n briodol) | | | | | |
| | Llywodraeth Cymru | ☐ | Cyfoeth Naturiol Cymru | ☐ | Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |
| | Os **DO**, darparwch y canlynol:<br>- Rhif cyfeirnod eich trwydded ddiwethaf: | | | | | |
| | - Y flwyddyn y cyflwynwyd y drwydded: | | | | | |
| | - Y rhywogaethau y rhoddwyd y drwydded ar eu cyfer: | | | | | |
| | Os **NADDO,** bydd yn rhaid i chi gynnwys tystlythyrau ysgrifenedig (rhai gwreiddiol, nid llungopïau) gan ddau berson a all dystio i'ch addasrwydd a'ch cymhwysedd ar gyfer y math hwn o waith, a rhowch wybodaeth am eich profiad perthnasol. Dylai o leiaf un canolwr fod wedi meddu ar drwydded berthnasol o fewn y tair blynedd diwethaf. Efallai y byddwn yn cysylltu â'r canolwyr hyn i gadarnhau eu datganiadau. Rhowch eu henwau, eu manylion cyswllt a'u cymwysterau isod. | | | | | |
| | | | | | | |

## 4. Profiad a chymwysterau

| | |
|---|---|
| a) | Rhowch wybodaeth gryno am y profiad a'r cymwysterau sydd gennych sy'n berthnasol i'r rhywogaethau sy'n perthyn i'r cais hwn ac i'r math hwn o waith. |
| | |
| b) | Rhowch wybodaeth gryno am unrhyw brofiad a/neu gymwysterau sydd gennych â rhywogaethau eraill ac y credwch eu bod yn berthnasol i ddangos eich addasrwydd a'ch cymhwysedd ar gyfer gwaith arfaethedig y cais hwn. |
| | |

## 5. Asiantau achrededig / Cynorthwywyr

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dylai **asiant achrededig** fod yn berson sy'n addas o gymwys a phrofiadol ac yn gallu cyflawni gwaith o dan drwydded heb oruchwyliaeth bersonol y trwyddedai neu'r ecolegydd enwebedig. I gyflawni'r gwaith, rhaid iddynt feddu ar lythyr a lofnodwyd gan y trwyddedai ac sy'n ei benodi ef neu hi yn asiant achrededig ar gyfer y trwyddedai at ddibenion y drwydded hon. Mae'r trwyddedai yn llwyr gyfrifol, bob amser, am yr holl waith a wneir o dan drwydded.<br>Cyflogir **cynorthwyydd** gan drwyddedai, neu ei asiant achrededig, i weithio o dan ei oruchwyliaeth bersonol, uniongyrchol bob amser. Pe bai asiant achrededig neu gynorthwyydd yn tramgwyddo amodau'r drwydded, gellir dirymu'r drwydded. | | | | |
| | Ydych chi'n bwriadu cyflogi asiantau achrededig? Os **YDW**, nodwch eu manylion isod. | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |

| | Enw | Cyfeiriad | Y gwaith a wneir | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | |
| | Ydych chi'n bwriadu cyflogi cynorthwywyr? Os **YDW**, nodwch eu manylion isod. | | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| | **Enw** | **Cyfeiriad** | **Y gwaith a wneir** | | | |
| | | | | | | |

## Rhan C. Y Cais

**Byddwch cystal â chyfeirio at y rhywogaethau a fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaith arfaethedig, ac a fanylir yng Nghwestiwn 6 isod, wrth roi atebion yn yr adran hon. Rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl a gwnewch yn siŵr eich bod yn ateb pob cwestiwn.**

### 6. Rhywogaethau

**Gosodwch X, fel bo'n berthnasol, a nodwch amcangyfrif o faint o greaduriaid unigol fydd yn cael eu heffeithio gan y gwaith.**

| | Rhywogaethau | X | Nifer yr unigolion |
|---|---|---|---|
| | Dyfrgi | ☐ | |
| | Pathew | ☐ | |
| | Madfall Ddŵr Gribog | ☐ | |
| | Ystlum *(nodwch pa rywogaethau isod)* | ☐ | |

| Rhywogaeth o ystlum | X | Nifer yr unigolion | Rhywogaeth o ystlum | X | Nifer yr unigolion |
|---|---|---|---|---|---|
| YSTLUM LLEIAF (*Pipistrellus pipistrellus*) | ☐ | | YSTLUM HIRGLUST (*Plecotus auritus*) | ☐ | |
| YSTLUM LLEIAF SOPRANO (*Pipistrellus pygmaeus*) | ☐ | | YSTLUM DU (*Barbastella barbastellus*) | ☐ | |
| YSTLUM BARFOG (*Myotis mystacinus*) | ☐ | | YSTLUM BRANDT (*Myotis brandtii*) | ☐ | |
| YSTLUM Y DŴR (*Myotis daubentonii*) | ☐ | | YSTLUM NATTERER (*Myotis nattereri*) | ☐ | |
| YSTLUM TRWYN PEDOL LLEIAF (*Rhinolophus hipposideros*) | ☐ | | YSTLUM MAWR (*Nyctalus noctula*) | ☐ | |
| YSTLUM TRWYN PEDOL MWYAF (*Rhinolophus ferrumequinum*) | ☐ | | YSTLUM ALCATHOE (*Myotis alcathoe*) | ☐ | |
| Unrhyw rywogaeth arall o ystlumod (nodwch os gwelwch yn dda): | | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **<u>Noder:</u> Ydych chi wedi anfon y cofnodion arolwg i'r Ganolfan Gofnodion Leol?** | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| | Os **NAC YDW**, cysylltwch â Chyfoeth Naturiol Cymru am gyngor trwy'r person cyswllt a ddarperir ar ddiwedd y ffurflen hon, neu cysylltwch â'r Ganolfan Gofnodion Leol yn uniongyrchol drwy'r cysylltiadau sydd yn y ddolen hon: www.lrcwales.org.uk | | | | |

## 7. Gwaith y datblygiad arfaethedig

| | |
|---|---|
| a) | Rhowch ddisgrifiad o'r gwaith arfaethedig a wneir a nodwch pam ei fod nhw'n angenrheidiol *(e.e. mae angen newid y to oherwydd mae'r un presennol bellach yn ddiffygiol am y rhesymau canlynol …)* |
| | |
| b) | Rhowch ddisgrifiad o sut bydd y gweithgaredd arfaethedig yn cael effaith ar y rhywogaethau sy'n bresennol *(e.e. cipio a chludo ystlumod, gan gynnwys eu heithrio o ofod mewn to er mwyn ail-doi adeilad; gwaith yn difrodi/difetha esgynbren yr ystlumod).* |
| | |

## 8. Diben y cais am drwydded (rhowch x fel bo'n berthnasol)

**O dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ond cyflwyno trwydded i chi'n gyfreithlon os gallwch ddangos bod eich cynigion yn bodloni un o'r dibenion isod.**

| | |
|---|---|
| | **Canllawiau - rhesymau hollbwysig sydd er budd cyhoeddus tra phwysig**<br>Er mwyn bodloni'r diben hwn, bydd angen i chi ddangos ym mha fodd mae eich cynnig yn **hanfodol**, **tra phwysig**, ac **er budd cyhoeddus** yn hytrach nag er budd preifat yn unig.<br><br>**Mae enghreifftiau'n cynnwys:**<br>Mae'r gwaith yn cynnig tai mewn ardal lle mae prinder ohonynt wedi cael ei nodi.<br>Mae'r gwaith yn creu, atgyweirio neu'n gwella seilwaith hanfodol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol.<br>Mae'r gwaith yn cynnig cyfleusterau gofal neu wasanaeth cyhoeddus hanfodol arall mewn ardal lle mae'n hysbys bod arni eu hangen.<br>Mae'r gwaith yn mynd i'r afael ag angen cymdeithasol, crefyddol neu ddiwylliannol sydd wedi cael ei ddynodi'n glir.<br>Mae'r gwaith yn creu cyfleoedd hirdymor am gyflogaeth mewn ardal o ddiweithdra uchel.<br>Mae'r gwaith yn dod â manteision economaidd neu fel arall yn cyfrannu at yr economi ehangach.<br>Mae'r gwaith yn hyrwyddo ynni cynaliadwy a/neu'n cynnig ffynonellau ynni amgen.<br>Mae'r gwaith yn gwarchod lle o ddiddordeb amgylcheddol.<br><br>**Canllawiau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd**<br>Er mwyn bodloni'r diben hwn, bydd angen i chi ddangos ym mha fodd mae eich cynnig yn **datrys problem go iawn i iechyd a diogelwch y cyhoedd**, bod angen **gweithredu ar frys,** a sut bydd eich cynnig yn **ateb y broblem hon**. Byddwch cystal â nodi a yw'r risg wedi'i gadarnhau gan berson sy'n briodol o gymwys, e.e. peiriannydd strwythurol, yr heddlu, neu arbenigwr iechyd a diogelwch cymwys. |
| a) | Nodwch isod brif bwrpas cynnal y gwaith arfaethedig. Darllenwch y cyfarwyddiadau a ddarperir yn b) isod cyn ateb y cwestiwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Gwarchod –* | iechyd y cyhoedd | ☐ |
| | | diogelwch y cyhoedd | ☐ |
| | | rhesymau hollbwysig eraill sydd **er budd cyhoeddus tra phwysig**, gan gynnwys rhesymau cymdeithasol neu economaidd a chanlyniadau buddiol o bwysigrwydd sylfaenol i'r amgylchedd | ☐ |
| | *Atal –* | clefydau rhag lledaenu | ☐ |
| | | niwed difrifol i anifeiliaid fferm, bwydydd anifeiliaid, cnydau, llysiau, ffrwythau, coedamaeth, neu unrhyw ffurf arall ar eiddo, neu i bysgodfeydd | ☐ |
| b) | Nodwch isod, **yn fanwl**, eich rhesymau am y diben a ddynodwyd yng nghwestiwn 8), a). Ym mha fodd mae'r gwaith yn bodloni'r diben hwn? Pa fanteision a ddaw o gwblhau'r gwaith? Ydyn nhw'n fanteision ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol? Rhowch dystiolaeth a manylion i gefnogi'ch datganiad, e.e. polisïau a chynlluniau cynllunio lleol, dogfennau polisi, adroddiadau arbenigol, ffotograffau. | | |
| | | | |

## 9. Crynodeb o'r sefyllfa gynllunio (rhowch x mewn un blwch yn unig)

| | | |
|---|---|---|
| | Nid oes angen cael caniatâd cynllunio | ☐ |
| | Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn | ☐ |
| | Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol | ☐ |
| | Cadwyd materion yn ôl | ☐ |
| | Nodwch isod fanylion y cydsyniadau a roddwyd i'r gweithgaredd arfaethedig. Nodwch yma hefyd os cafodd cydsyniadau eraill eu rhoi i'r gweithgaredd. Er enghraifft, cydsyniad adeilad cofrestredig, gorchymyn cadw coed, hysbysiad dymchwel; nodwch hefyd os yw'r gwaith yn cael ei ddiffinio fel datblygiad a ganiateir, etc. | |
| | Cydsyniad(au) a roddwyd:<br><br>Disgrifiad o'r hyn a ganiateir gan y Cydsyniad:<br><br>Enw'r Awdurdod Cynllunio:<br><br>Rhifau cyfeirnod cynllunio: | |

- **SICRHEWCH FOD Y DDOGFENNAETH GYNLLUNIO SY'N OFYNNOL YN CAEL EI CHYFLWYNO GYDA'CH CAIS** *Cyfeiriwch at nodyn iv ar dudalen 1 am ragor o wybodaeth*
- Noder na fydd y Tîm Gwarchod Rhywogaethau'n prosesu ceisiadau lle mae hawl cynllunio yn dal i gael ei ystyried a lle nad oes amodau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau wedi cael eu cyflawni eto.

## 10. Opsiynau amgen boddhaol:

**O dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010, gall Cyfoeth Naturiol Cymru ond cyflwyno trwydded i chi'n gyfreithlon os gallwch ddangos nad oes opsiynau amgen boddhaol i'r gwaith arfaethedig, a fyddai'n cael llai o effaith ar y rhywogaethau dan sylw.**

Rhowch fanylion dulliau gwahanol i'r rhai a ddewiswyd gennych, a ellid eu cyflawni i leihau neu osgoi'r effeithiau ar y rhywogaethau a warchodir. Yna nodwch pam nad yw'r dulliau amgen hyn yn addas neu pam na chawson nhw eu mabwysiadu. Pam y cawson nhw eu diystyru? Gwnewch yn siŵr bod eich atebion yn **fanwl**.

**Mae enghreifftiau'n cynnwys:**

**Gwneud dim** – nodwch pam nad yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol neu'n ymarferol. Beth fydd y goblygiadau os na fydd y gwaith yn mynd yn ei flaen? Dylid ystyried y sefyllfa hon gyda phob cais.

**Cynlluniau amgen –** amlinellwch unrhyw ddulliau gwahanol i'r rhai a ddewiswyd gennych, a ellid eu cyflawni i leihau neu osgoi'r effeithiau ar y rhywogaethau a warchodir. Pam nad ydych chi wedi mabwysiadu'r cynlluniau hyn? Os nad oes rhywrai, nodwch pam.

**Llwybrau / lleoliadau amgen** – amlinellwch a fyddai'r gwaith arfaethedig yn gallu cael ei gynnal rhywle arall er mwyn osgoi/lleihau'r effaith ar y rhywogaethau a warchodir. Pam nad ydych chi wedi dewis ymgymryd â'r datblygiad rhywle arall? Os nad oes safleoedd ar gael, nodwch pam.

**Amseru gwahanol** – nodwch a fyddai modd gwneud y gwaith ar adeg a fyddai'n cael llai o effaith ar y rhywogaethau a warchodir. Pam nad ydych chi wedi dewis ymgymryd â'r datblygiad ar yr adeg hon? Os nad oes amserau gwahanol, addas, esboniwch pam.

## 11. Y gweithgareddau a drwyddedir

| a) | **Dulliau arfaethedig** |
|---|---|
| | Cwblhewch yr **holl** golofnau perthnasol yn y tabl isod gan ddefnyddio **X** yn ôl yr angen i ddynodi'r **dulliau y bwriadwch eu defnyddio, a'r cyfnod amser ar gyfer pob** dull. Defnyddir y wybodaeth hon wrth lunio'r drwydded, a thrwy beidio â rhoi gwybodaeth gyflawn, fe all y drwydded a roddir fod yn amhriodol. |

| **Gweithgaredd a drwyddedir** | | | | | | Dull a ddefnyddir, e.e. â llaw, rhwyd, eithrio etc. Cipio (gan gynnwys | **Cyfnod amser** (mis a blwyddyn) | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cipio (gan gynnwys meddiannu dros dro) | Trafnidiaeth | Tarfu | Difrodi safle magu neu man gorffwys | Dinistrio safle magu neu man gorffwys | Lladd (dim ond mewn achosion arbennig gweler nodyn | | o | i |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | |
| ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | |

[1] Rhoddir trwydded i ladd mewn amgylchiadau eithriadol yn unig; dylech drafod y sefyllfa benodol gydag Uwch-swyddog Rhywogaethau Rhanbarthol eich ardal yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Os oes bwriad gennych i ladd yn fwriadol, cynhwyswch fesurau bioddiogelwch yn narpariaethau'r datganiad dull.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| b) | **Lleoliad y gwaith trwyddedig arfaethedig** | | | |
| | Enw a chyfeiriad y safle | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | Tref | | | |
| | Sir | | | |
| | Cod post | | | |
| | Cyfeirnod OS (e.e. ST 12345 12345) | | | |
| c) | A yw eich Datganiad Dull yn cynnwys map lleoliad ar raddfa berthnasol? Cynghorir graddfa o 1:25,000. Ticiwch i gadarnhau. | | Ydy | ☐ |
| d) | Nodwch pam na fydd y weithred arfaethedig yn niweidiol i gynnal y rhywogaeth dan sylw ar statws cadwraeth ffafriol. | | | |
| | | | | |

## 12. Ystyried Safleoedd Dynodedig

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Ardaloedd Dynodedig:** Gwarchodfeydd Natur Lleol, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, safleoedd Ramsar, a rhai systemau penodol ar gyfer afonydd/llynnoedd. | | | | |
| a) | A fydd unrhyw ran o'r gweithgaredd arfaethedig yn digwydd o fewn ardal sy'n rhan o safle dynodedig? | Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ |
| b) | A fydd unrhyw ran o'r gweithgaredd arfaethedig yn digwydd yn gyfagos i ardal sy'n rhan o safle dynodedig? | Bydd | ☐ | Na fydd | ☐ |
| c) | Os **BYDD** i un o'r uchod, ydych chi wedi ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i gael cyngor ar oblygiadau eich cais i'r safle gwarchodedig? | Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| d) | Nodwch naill ai ganlyniad eich ymgynghoriadau neu'r rheswm pam nad ydych wedi ymgynghori. Byddwch cystal â chynnwys unrhyw ohebiaeth berthnasol ac **enwch y safle dynodedig perthnasol**. | | | | |
| | | | | | |

## Rhan D. Datganiadau

### 13. Darllenwch a llofnodwch y datganiadau canlynol

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| a) | Ydych **chi** neu un o'ch **asiantau achrededig** neu **gynorthwywyr** erioed wedi cael eich dedfrydu am drosedd yn ymwneud â bywyd gwyllt? | Do | ☐ | Naddo | ☐ |
| | Os **DO**, nodwch y manylion, gan gynnwys dyddiadau. | | | | |
| b) | Rwy'n awdurdodi gweithwyr neu gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru i fyned ar y safle sy'n destun y cais hwn, at ddibenion monitro ac archwilio'r gwaith trwyddedig (rhowch x yn y blwch gyferbyn). | ☐ | | | |
| c) | Rwyf wedi darllen ac yn deall y canllawiau a ddarperir yn y ffurflen gais hon. Rwy'n datgan bod y manylion a roddir yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, a gwnaf gais am drwydded yn unol â'r manylion hyn. Os rhoddir trwydded, cytunaf i anfon adroddiad ysgrifenedig o'r gweithgareddau trwyddedig at Gyfoeth Naturiol Cymru ymhen pedair wythnos ar ôl i'r drwydded ddod i ben.<br>**Noder.** *Dylai datblygwyr nodi ei bod yn drosedd o dan Reoliad 57 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 i ddarparu gwybodaeth ffug yn fwriadol neu'n ddi-hid er mwyn derbyn trwydded.* | | | | |
| | Llofnod yr **Ymgeisydd** | | **Dyddiad** | | |
| | ***Ar gyfer ceisiadau electronig, mewnosodwch lofnod electronig uwchlaw neu rhowch x yn y blwch sydd gyferbyn er mwyn cadarnhau eich bod yn cytuno â'r datganiadau uchod.*** | ☐ | | | |
| | Enw mewn PRIF LYTHRENNAU | | **Dyddiad** | | |
| | Llofnod yr **Ecolegydd** | | **Dyddiad** | | |
| | ***Ar gyfer ceisiadau electronig, mewnosodwch lofnod electronig uwchlaw neu rhowch x yn y blwch sydd gyferbyn er mwyn cadarnhau eich bod yn cytuno â'r datganiadau uchod.*** | ☐ | | | |
| | Enw mewn PRIF LYTHRENNAU | | **Dyddiad** | | |

## Rhan E. Rhestr wirio

Dychwelwch eich ffurflen gais, wedi'i chwblhau, i'r cysylltiadau canlynol yng Nghyfoeth Naturiol Cymru. Byddai'n well gennym ei derbyn ar ffurf electronig os bydd hyn yn bosibl. Os bydd angen ichi anfon dogfennau atom ar ffurf copi caled, gwnewch yn siŵr eich bod yn **cyflwyno dau gopi o bob dogfen.**

| | | |
|---|---|---|
| **Tîm Gwarchod Rhywogaethau**<br>**Cyfoeth Naturiol Cymru,**<br>**Maes y Ffynnon,**<br>**Penrhosgarnedd,**<br>**Bangor,**<br>**LL57 2DW**<br><br>**E-bost:**<br>specieslicence@naturalresourceswales.gov.uk<br><br>**Rhif Ffôn: 0300 065 3000** | **Rhestr wirio cyn cyflwyno eich cais:** | |
| | Ffurflen gais wedi'i chwblhau | ☐ |
| | Datganiad dull | ☐ |
| | Arolygon rhywogaethau a warchodir | ☐ |
| | Dogfen Ymgynghori Awdurdod Cynllunio Lleol wedi'i chwblhau (os oes hawl cynllunio neu gydsyniadau eraill yn ofynnol/wedi'u rhoi) | ☐ |
| | Copi o unrhyw gydsyniadau eraill a roddwyd (adeilad cofrestredig/gorchymyn cadw coed/hysbysiad dymchwel etc.) | ☐ |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Copi o'r caniatadau sy'n gysylltiedig â'r cais a chopïau o adroddiad y penderfyniad dirprwyedig a/neu gofnodion y pwyllgor cynllunio | ☐ |
| | | Dogfennaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cadarnhau y cyflawnwyd unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau ac sy'n gorfod cael eu cyflawni cyn dechrau'r datblygiad. | ☐ |